



Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation

Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes



Tanysgrifiwch i'n newyddion
a'ndigwyddiadau!
www.southwalesbusiness.co.uk

Torfaen Business Voice Llais Busnes Torfaen

MAI 2019

www.twitter.com/TorfaenBiz

www.facebook.com/TorfaenBiz

www.facebook.com/TorfaenBiz

AD A LLES

DIGWYDDIAD NESAF
Dydd Iau 20 Mehefin 2019

5:00PM


A bank of knowledge
not simply a bank of money

Our support for your business goes beyond finance.
We can connect you with the right people, with the right
knowledge, to boost your business and help it grow.

Search: **NatWest Boost**



NatWest
We are what we do



Nodiadau'r Cadeirydd

Fel rydym oll yn gwybod, gall fod yn anodd cydbwyso ymrwymïadau gwaith a theulu. Gall newidiadau sy'n cryfhau gallu gweithiwr i ofyn am oriau gwaith hyblyg neu oriau cywasgedig a newidiadau i absenoldeb mamolaeth a thadolaeth adael cyflogwyr yn ei chael yn anodd canfod cydbwysedd teg rhwng cadw staff hapus a chynhyrchiol trwy ganiatáu ceisiadau a chadw cleientiaid a chwsmeriaid hapus trwy gael y staff ar gael i'w helpu.

Os yw'n teimlo fel nad oes modd cydbwyso'r ddau beth yma, yna gallai'n pwnc busnes nesaf eich helpu i ganfod atebion! Rydym yn canolbwyntio ar Adnoddau Dynol yn ein cyfarfod nesaf, yn benodol lles yn y gweithle, felly os ydych eisiau atebion ar yr uchod, yna Clwb Golf Greenmeadow ar 20fed Mehefin yw'r lle i'w canfod.

Cyfarfod Olaf y Ffwyddyn

Mae ein cyfarfod mis Mehefin yn cael ei gynnal **ddydd Iau 20 Mehefin, 5pm yng Nghlwb Golf Greenmeadow**, ac rydym yn falch o gyhoeddi mai Natwest Cymru yw noddwr a llywydd y digwyddiad.

Fel benthyciwr busnes mwyaf y DU i fusnesau bach, mae NatWest Cymru yn darparu cefnogaeth i dros 20,000 o fusnesau ledled Cymru gyda'r benthyc yn cyrraedd cyfanswm o fwy na £1.5bn. Fodd bynnag, mae'r banc yn darparu cefnogaeth i fusnesau drwy wneud mwy na benthyc arian yn unig, ac mae'n darparu cymorth rheng flaen i gwmnïau newydd a chwmnïau sy'n tyfu, drwy ei dîm Galluogi Twf Busnes, dan arweiniad Lee Morgan yng Ngwent. Bydd y digwyddiad yng Nghlwb Golf Greenmeadow yn cael ei gynnal ar y cyd ag un o ddarparwyr cyfathrebu allanol mwyaf y DU - Money Penny, sydd a'u pencadlys yn Wrecsam - a bydd yn canolbwyntio ar ffyrdd ymarferol o ddatblygu gweithlu hapus a thîm cynhyrchiol o weithwyr.

Yn dilyn y cyflwyniad hwn bydd cyfle i rwydweithio.

Mae gan aelodau hawl i 2 le am ddim yn y digwyddiad hwn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â chydweithiwr, cleient neu gyswllt busnes gyda chi er mwyn i ni allu darparu cysylltiadau gwerthfawr i fusnesau'r naill a'r llall.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i groesawu ein haelodau newydd ac atgoffa'r aelodau presennol i annog cysylltiadau a ffrindiau busnes i ddod draw – po fwyaf ohonom sydd yna, po fwyaf y buddiannau a gawn o'r noson. Hoffwn hefyd ddiolch i Fanc NatWest am eu caredigrwydd yn noddîr digwyddiad – rydym yn gwerthfawrogi hynny'n fawr.



Ashley Harkus
Cadeirydd, Llais
Busnes Torfaen

Gall Aelodau Llais Busnes Torfaen hefyd ddod â baner sbonc – a fydddech cystal â nodi ar y ffurflen archebu electronig os ydych yn dod â'ch un chi.

Archebwch Eich Lle:

<http://bit.ly/tbv-june-2019-cy>

Dyddiad i'ch dyddiadue

20/06/19 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

9/07/19 - Cyfarfod eich Cymydog Busnes - 5:00pm

19/09/19 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

23/10/19 - Digwyddiad Merched Mewn Busnes Torfaen - 4:30pm

05/12/19 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm



Greenmeadow Golf and Country Club,
Cwmbran

YN Y RHIFYN HWN:

TUDALEN 4
Iechyd Meddwl yn y
Gweithle

TUDALEN 5
Cyfweiliad gyda Lisa
Hand, Uwch Reolwr AD,
Sigma Systems

TUDALEN 6
A yw eich technegau
cyfweld yn helpu neu'
llesteirio?

Cadw staff: chwe ffordd i wneud pobl yn awyddus i aros

Gweithwyr yw asedau mwyaf gwerthfawr BBaCh - ac mae staff hapus yn fwy cynhyrchiol ac yn aros gyda chwmnïau am gyfnod hwy. Rydym yn archwilio'r ffyrdd sydd wedi'u profi i adeiladu busnes y mae pobl yn hoffi gweithio iddo.

O ran ffactorau sy'n effeithio ar redeg busnes o ddydd i ddydd, mae un o bob pedwar uwch-benderfynwr yn pryderu fwyaf am deyrngarwch staff, yn ôl arolwg gan AXA PPP o dros 500 o brif weithredwyr, rheolwyr gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr. Datgelodd yr arolwg hefyd mai cadw staff oedd y pryder mwyaf i 29% o benderfynwyr - bron i ddwywaith y gyfran a oedd yn poeni fwyaf am salwch hirdymor.

Mae dod o hyd i ffyrdd o wneud gweithwyr yn awyddus i aros yn eich cwmni yn gwneud synnwyr busnes da, a hynny am ei fod yn costio £28,436 ar gyfartaledd i gael gweithiwr arall i gymryd gweithiwr. Felly dyma chwe cham ymarferol y gall perchnogion busnesau bach a chanolig eu cymryd i wella'u ffyrdd o gadw staff.

Mynnwch strategaeth integreiddio

Amcangyfrifir bod traean o'r rheini sy'n cael swydd newydd yn gadael eu rôl o fewn chwe mis, fel arfer am eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi a'u croesawu. Mae Alison King, sylfaenydd a chyfarwyddwr Bespoke HR, yn aml yn clywed y gwyn hon wrth gynnal cyfweiliadau ymadael ar ran cleientiaid.

"Mae cael strategaeth integreiddio yn hanfodol os ydych chi am i'ch staff deimlo eu bod yn cael eu cymell o'u diwrnod cyntaf," meddai King. "Mae dangos ychydig o arwydd o gyfeillgarwch syml fel eu gwahodd i ginio, yn ffordd braf o groesawu dechreuwr newydd a gall rhoi cyfle iddynt ddod i adnabod eu cydweithwyr mewn lleoliad anffurfiol."

Cyflëwch eich gweledigaeth o'r cychwyn

Gall gweithio ar ddechrau egin-fusnes neu fusnes bach a chanolig fod yn gyffrous ond yn ddwys. Efallai y bydd gweithwyr yn cael eu hunain yn gweithio oriau hir heb dâl ychwanegol a buddion cyfyngedig. Gall trosiant staff fod yn uchel o ganlyniad.

"Fel arfer, mae busnesau newydd yn cael eu harwain gan entrepreneuriaid gweledigaethol sydd â chenhadaeth glir ac ysfa ddi-baid i gyflawni eu nodau. Mae hyn yn creu diwylliant sy'n wahanol i'r rhan fwyaf o gwmnïau. Yn y pen draw, gall fod yn amgylchedd heriol i hyd yn oed y bobl fwyaf talentog a phrofiadol," meddai Nicholas Sherratt, cyd-sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr Mojo Mortgages egin-fusnes fintech.

Yn ôl Sherratt mae'n hanfodol bod perchnogion busnes yn cyfleu eu gweledigaeth o'r cychwyn, fel bod gweithwyr yn gwybod a ydynt yn mynd i ymgartrefu yno'n ddiwylliantol.

"Hefyd, rhaid i chi ymddiried yn eich gweithwyr i gyflawni. Os caniateir iddynt weithio'n annibynnol, byddant yn teimlo eu bod wedi'u grymuso," ychwanega.

"Mae hyn yn galluogi'r busnes i fod yn hyblyg ac i wneud penderfyniadau cyflym - dwy agwedd sylfaenol i dwf busnesau newydd."

Dangoswch barch

Gall galliaid ffa, manau ymgynnull a byrbrydau am ddim fod yn ddechrau da mewn cwmnïau newydd a chwmnïau ifanc. Fodd bynnag, er eu bod yn fanteision braf, nid ydynt yn sicrhau y bydd gweithwyr yn aros o gwmpas.

"Hefyd, rhaid i chi ymddiried yn eich gweithwyr i gyflawni. Os caniateir iddynt weithio'n annibynnol, byddant yn teimlo eu bod wedi'u grymuso" Nicholas Sherratt, cyd-sylfaenydd a RhG, Mojo Mortgages.

"Mae gweithwyr eisiau cael eu parchu gymaint ag y cânt eu gwobrwyo," meddai King. "Eisteddwch i lawr gyda nhw, darganfyddwch beth sy'n eu gyrru, pa fath o waith maen nhw am ei wneud yn y dyfodol, a sicrhewch eich bod yn dangos sut y gallant symud ymlaen yn eich cwmni. Mae llwybrau gyfra diffiniedig yn arf cadw gwyach."

Buddsodwch mewn datblygiad personol

Mae gweithwyr eisiau teimlo o bwys, yn ôl Mark Loftus, sylfaenydd a Phrif Weithredwr yr ymgynghoriaeth reoli CharacterScope. Maent hefyd eisiau teimlo bod eu cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth a'u bod yn gymwys.

Er mwyn i weithwyr deimlo hyn, mae Loftus yn dweud, mae angen buddsoddi'n weithredol yn eu datblygiad personol. Gallai hyn fod trwy wella sgiliau neu eu hanfon ar gyrsiau hyfforddi - felly, er enghraifft, maent yn ennill achrediad i ddefnyddio meddalwedd penodol ac yn cael mwy o gyfrifoldebau.

"Os nad ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi neu eu bod yn cael eu trin fel modd o gyrraedd y nod yn unig, maen nhw'n mynd i bleidleisio gyda'u traed a chwilio am le newydd i weithio - rhywle gyda siawns uwch y byddant yn teimlo o bwys," ychwanega.

Defnyddiwch eich greddf i wneud penderfyniadau AD

Diolch i dechnoleg, gall busnesau nawr wneud penderfyniadau Adnoddau Dynol sydd wedi'u haddysgu'n well ac yn fwy gwybodus. Maent yn gallu rhoi adborth i weithwyr yn seiliedig ar ystod eang o fetrigau a dadansoddiadau mathemategol.

Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig nad yw busnesau yn dod yn or-ddibynnol ar ddata, meddai Colin Dulson, Rheolwr Gyfarwyddwr Berrison, cwmni datblygu busnes, sy'n helpu busnesau bach a chanolig gyda'u hymgysylltiad â gweithwyr.

"Mae adborth effeithiol gan weithwyr yn hanfodol i ddiwyllianau'r gweithle sy'n newid yn gyflym. Mae angen i fusnesau sicrhau bod eu systemau gwerthuso yn gyfredol," ychwanega. "Ond nid yw gweithwyr, yn enwedig y genhedlaeth ifanc, bob amser am i gresio rhifau osod yr amodau."

Maent am ymddiriedaeth Maent eisiau ymddiriedaeth, hyfforddiant ac annibyniaeth, meddai, a daw hyn o gael sgysiau a defnyddio greddf.

Cynigiwch fuddion hyblyg

Gallwch gymryd yn ganiataol bod gweithwyr yn fwy tueddol o aros o gwmpas os ydynt yn derbyn mwy o dâl, ond nid yw hyn yn wir bob amser. Mae Dulson yn dweud bod gweithwyr iau, yn arbennig, yn llai pryderus o ran enillion ariannol ac yn hytrach yn ceisio gwobrau sy'n cyd-fynd ag arddulliau gweithio newydd y mae eu cenedlaeth yn gyfarwydd â hwy.

Yn ôl King, os yw busnesau'n mynd i gynnig pecyn buddion, mae buddion hyblyg yn gynnig deniadol.

"Mae cynnig oriau gweithio hyblyg a'r cyfle i weithio o gartref yn apelio at lawer o weithwyr, gan eu bod yn fanteision sy'n gweddu i'w ffordd o fyw," meddai King. "Mae caniatáu hyblygrwydd yn creu gweithwyr hapusach, a fydd yn fwy ymroddedig ac yn dymuno aros yn eu swydd."



Gall adnabod yr arwyddion rhybuddio cynnar a gweithredu arnynt fod yn allweddol o ran cael ffordd gadarnhaol ymlaen. Gall cwestiynau syml fel "Sut ydych chi? Sut mae pethau ar y funud?" agor sianel gyfathrebu i weithwyr sydd efallai'n cael anhawster. Gall dod i adnabod eich staff fod yn amhrisiadwy wrth ddelio gyda phroblemau iechyd meddwl. Fel rheolwr neu gydweithiwr, efallai y byddwch yn sylw ar arwyddion bach bod rhywun yn cael trafferthion. Mae dulliau cyfathrebu cyson megis sesiynau un i un yn rheolaidd yn helpu i adnabod a delio gydag unrhyw broblemau y mae unigolion yn eu cael. Nid yw'r problemau bob amser yn ymwneud â'r gwaith, ond efallai y medrwyd gynnig ateb yn y gwaith sy'n eu helpu, er enghraifft newid dros dro mewn oriau neu batrwm gwaith.

Mae mwy o gyflogwyr yn dangos eu hymrwymiad i les yn y gweithle trwy gynnig Rhaglenni Cymorth i Weithwyr sy'n rhoi mynediad at gwnsela, cyngor a chymorth yn gyfrinachol. Mae llawer o gyfundrefnau yn meithrin perthynas waith gyda Phractis Iechyd Galwedigaethol er mwyn cael help ac arweiniad amserol gydag iechyd meddylion a chorfforol gweithwyr.

Datgelodd darganfyddiadau o arolwg iechyd a lles meddyliol a ymgwymerwyd gan y Sefydliad Iechyd Meddwl bod 86% o ymatebwyr yn credu bod eu swydd a bod yn y gwaith yn bwysig o ran amddiffyn a chynnal eu hiechyd meddwl. At hyn, mae astudiaethau diweddar wedi dangos bod delio â lles yn y gweithle yn cynyddu cynhyrchedd gymaint â 12%. Mae'r ffigurau hyn yn unig yn awgrymu y dylai cyfundrefnau edrych ar iechyd meddwl yn y gweithle a thrwy wneud hynny, maent yn debygol o weld effeithiau positif i unigolion a'r gyfundrefn drwyddi draw.

Isod mae dolennau i nifer o adnoddau a chyfundrefnau a fydd efallai'n ddefnyddiol i fusnesau ar y pwnc hwn:

ACAS

<http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=1900>

Dalennau gwybodaeth CIPD


<https://www.cipd.co.uk/knowledge/culture/well-being/mental-health-factsheet>

Sefydliad Iechyd Meddwl

<https://www.mentalhealth.org.uk/>

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

<http://www.hse.gov.uk/stress/mental-health.htm>



Cyfweliad gyda Lisa Hand, Uwch Reolwr AD, Sigma Systems

Mae Lisa Hand yn un o 3 Uwch Reolwr AD gyda Sigma Systems, arweinydd byd-eang mewn meddalwedd a yrrir gan gatalog. Mae gan y cwmni bencadlys yn Nhoronto, Canada, Llundain, DU, UDA, India, Ewrop ac Asia Basiffig. Mae un o'r gweithrediadau yn y DU yn Springboard, Cwibrân ac o'r fan honno y mae Lisa yn gyfrifol am weithrediadau AD ar draws Ewrop ac Asia Basiffig a lle mae 60 o'r 95 aelod staff yn y DU yn gweithio. Mae Lisa yn adrodd i Is-lywydd, AD ac mae wedi bod gyda'r cwmni am bum mlynedd.

Mae Sigma wedi ei gydnabod fel un o'r 30 Cwmni Gorau i Weithio iddo yng Nghymru. Yn ddiweddar cafodd achrediad clodwiw un seren ar gyfer 2019 gan Gwmnïau Gorau'r DU. Roedd Lisa yn derfynydd yng Ngwobrau AD Cymru 2019 (categori Gweithiwr AD Proffesiynol Digidol/TG).

Eich taith chi yn y maes AD

Dim ond cyffwrdd ar AD wnaethom yn fy ngradd ond ar ôl graddio, cefais fy swydd AD gyntaf gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a oedd am flwyddyn. Cynghorodd mentor da fi i wneud Gradd Meistr mewn AD a dilyn y llwybr CIPD llawn. Mae gennyf brofiad yn y sectorau cyhoeddus, preifat a dielw a oedd yn cynnwys y GIG, y sector lletygarwch a Chymdeithasau Tai.

Beth mae bod yn derfynydd yng Ngwobrau AD Cymru yn ei olygu i chi?

Yn gyntaf, mae gennyf dîm gwych, cefnogol y tu ôl i mi, sydd wedi fy ngalluogi i fod yn llwyddiannus. Roeddwn wrth fy modd o fod ar y rhestr fer. Mae'r gwobrau hyn yn dangos parch cynyddol i AD (yn draddodiadol mae wedi ei ystyried fel gwasanaeth cymorth llai gweladwy) a'r effaith y gall gweithwyr AD proffesiynol ei chael ar llwyddiant busnes. Rwyf wrth fy modd gyda'r diwydiant technoleg. Mae'n golygu hyd yn oed fwy i fod ar y rhestr fer yn y sector hwn.

Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am eich rôl?

Mae amrywiaeth a chyfrifoldeb ynghyd â'r cyfle i gael effaith mewn busnes arloesol yn werth chweil. Mae Sigma hefyd yn sicrhau bod ymgysylltu â staff yn uchel ar ein hagenda.

Yn y deunaw mis diwethaf, mae cwmpas daearyddol fy rôl wedi dyblu, ac mae'n llawer ehangach na swyddogaeth AD draddodiadol. Rwy'n gweithredu fel partner busnes AD gwirioneddol ac yn gofalu am Ewrop ac Asia Basiffig. Mae ein cynlluniau i ehangu'n fasnachol i farchnadoedd newydd wedi galluogi i mi sefydlu systemau AD newydd a gofalu am faterion megis mewnffudo, sy'n hanfodol i'n llwyddiant.

Mae Sigma yn rhoi pwysigrwydd mawr ar recriwtio'r person iawn gyda'r nodweddion a'r agweddau rydym yn eu gwerthfawrogi. Rwy'n chwarae rhan o gychwyn eu taith gyda Sigma,

gyda phrosesau sgrinio rhagarweiniol a chyfweliadau cyntaf. Rwyf wirioneddol yn mwynhau gweld y llwyddiant y mae ein gweithwyr yn ei gyflawni.

Beth yw'r heriau?

Recriwtio a denu'r person iawn i'r swydd. Mae'r sector technoleg yn ddiwydiant cystadleuol iawn. Mae hefyd yn bwysig cadw staff a chynnal ymgysylltiad rhagorol.

Beth sydd wrth graidd y cysyniad The Sigma Way?

Mae ein diwylliant unigryw yn rhoi ymddiriedaeth wirioneddol, hyblygrwydd a gwerthoedd gwych wrth graidd popeth. Ein nod wastad yw creu amgylchedd rhagorol lle mae pobl eisiau gweithio ac aros yn yr hirdymor. Mae hefyd yn ymwneud ag esblygu gydag anghenion newidiol pobl a'r busnes i barhau gyda'n stori o llwyddiant.

Mae ein rhaglen gydnabyddiaeth fyd-eang yn cynnwys gwobrau cysylltiedig â pherfformiad, sydd wedi eu cysylltu gyda'n gwerthoedd fel cwmni ac mae'n dathlu llwyddiant unigolion a thimau. Mae ein Rhaglen Antur Gyrfa yn galluogi i weithwyr feddwl yn greadigol ynglŷn â sut medrent ddatblygu, teithio a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd yn eu gyrfa. Mae ein digwyddiadau cymdeithasol hefyd yn creu tîm cryfach ac yn gwella cydweithrediad ac arloesi.

Beth yw 'pynciau llosg' AD ar gyfer 2019?

Effaith bosibl Brexit a newid yn y rheolau mewnffudo. Mae Sigma yn dibynnu ar gyflogi staff o Ewrop ac ymhellach i ffwrdd, ac mae ein gweithwyr hefyd yn teithio'n rheolaidd ar draws y cyfandir a'r byd.

Denu'r bobl orau. Cael y gorau allan ohonynt a gwneud yn siŵr eu bod eisiau aros. Mae profiad gweithwyr ac ymgysylltiad yn dod yn bwysicach.

lechyd a lles gweithwyr a sicrhau bod diwylliant 'gwaith hyblyg' gwirioneddol yn medru gweithredu.

Yng Nghymru, mae'r prinder sgiliau technegol, sydd wedi cael cyhoeddusrwydd, yn cynrychioli problem go iawn, felly mae busnesau fel ni yn gweithio gyda phrifysgolion, colegau a phartneriaid eraill i helpu sicrhau diwydiant deinamig a chyffrous at y dyfodol.

Synnwyr cyffredin yw AD, gwneud yr hyn sy'n rhesymol ac yn deg, a'r hyn sy'n gweithio i bobl yn ymarferol.



A yw eich technegau cyfweld yn helpu neu'n llesteirio?

Cyfweliadau. Rydych naill ai'n edrych ymlaen at eu cynnal, neu'n poeni amdanynt a chael rhywun arall i'w cynnal ar eich rhan. Efallai eich bod yn teimlo eich bod wedi mireinio eich techneg erbyn hyn ac yn dilyn yr un broses bob tro. Mae hyn yn wych ... os yw eich techneg yn llwyddiannus ac yn cydymffurfio'n gyfreithiol.

Efallai y daw'n syndod i rai cyflogwyr o ddysgu bod cyfraith cyflogaeth yn berthnasol hyd yn oed cyn cyflogi gweithiwr. O'r funud pan wnaethoch ddechrau recriwtio, rydych wedi'ch clymu gan gyfreithiau ar wahaniaethu a diogelu data.

Gall dewis y cwestiynau iawn hefyd fod yn her. Mewn cyfnod byr o amser, byddwch eisiau gwybod os mai nhw yw'r person iawn ar gyfer y swydd, yn ffitio'n iawn o fewn eich diwylliant a dweud mwy wrthyn nhw am y cwmni. Credwch neu beidio, mae rhai cyflogwyr yn baglu yn hyn o beth a gwneud cawl o'r rhan hon o'r broses.

Yr hyn na ddylid ei ofyn mewn cyfweliad am swydd

Yn gynharach eleni, trydarodd ymgeisydd am swydd am ei chyfweliad caled a bychanol yn ystod yr hwn y gofynnwyd iddi am ei phlentyndod, perthynas ei rhieni ac fe'i beirniadwyd am ei hystum.

Aeth y trydariad yn feirysol gan ddenu sylw a chyfweliad radio ar y BBC. Heb sôn am y cyhoeddusurwydd gwael i'r cwmni dan sylw.

Gall cwestiynau amhriodol neu ymosodol wneud i ymgeisydd deimlo'n anghyfforddus ac mae rhai, megis "Ydych chi wedi priodi?" neu "Oes gennych chi blant?" yn medru bod yn gamwahaniaethu pur ac anghyfreithiol. Mae'n well osgoi bod yn rhy gyfarwydd.

Mewn enghraifft arall, adroddwyd bod cadwyn fwyd Garibiaidd enwog wedi gofyn i ymgeiswyr arddangos eu sgiliau limbo. Tra bo hyn yn ysbryd diwylliant y cwmni, mae'n llwybr perygl i

gyfweliad. Buasem yn cyngori cyflogwyr i beidio â gofyn i ymgeiswyr ddawnsio – oni fo hynny'n hanfodol i'r swydd!

Beth gaf ei ofyn i ymgeisydd?

Mae digon o gwestiynau derbyniol y gallwch ac y dylech eu gofyn i berson sy'n cael cyfweliad, ac na fyddant yn niweidiol neu'n achosi embaras. Rydym yn awgrymu eich bod yn paratoi rhai ymlaen llaw.

Byddwch eisiau blaenoriaethu cwestiynau sy'n ystyried eu sgiliau a'u profiad i ddarganfod os mai nhw yw'r person gorau ar gyfer y swydd. Cwestiynau fel "A fedrwrch ymhelaethu ar eich profiad perthnasol ar gyfer y rôl hon?" neu "Pa sgiliau fedrwrch eu cynnig ar gyfer y rôl hon?" a fydd yn eich helpu i ddod i benderfyniad.

Gall cwestiynau sy'n ysgogi iddynt feddwl yn feirniadol neu'n greadigol hefyd fod yn ddefnyddiol, os ydynt yn angenrheidiol ar gyfer gofynion y rôl.

Yn naturiol, byddwch hefyd eisiau gwybod os bydd yr ymgeisydd yn ffitio'n dda o fewn diwylliant eich cwmni. Gall cwestiynau penagored fel "Beth yw eich diddordebau?" dorri'r ias yn dda ac maent yn ffordd ddiogel o ddarganfod mwy heb fod yn fusneslyd. Hefyd, os ydynt yn dweud wrthyich eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon peryglus yn rheolaidd, gall hyn ddweud llawer mwy wrthyich am berson.

A yw fy nghwestiynau cyfweliad yn gyfreithiol?

Os nad ydych yn siŵr, mae'n well gofyn am gyngor proffesiynol. Os ydych ar fin cychwyn ar rownd o gyfweliadau a hoffech wirio eich techneg yn gyntaf, pam na ddangoswch eich cwestiynau i ni neu ddod ar un o'n cyrsiau hyfforddi? Neu os hoffech lefel uchel o gymorth, gadewch i ni ofyn y cwestiynau ar eich rhan. Lee Monroe, Cyfarwyddwr yr Adran AD. lee.monroe@hrdept.co.uk

lee.monroe@hrdept.co.uk

Heb ymaelodi? Gwnewch 2019 yn flwyddyn i chi!

Mae'r aelodaeth yn fforddiadwy a medrwrch wneud un taliad. Nid oes ffioedd cudd ac mae ymaelodi'n caniatáu i chi gael dau le am ddim ym mhob cyfarfod.

Ffoniwch 01633 648644

E-bostiwch: info@southwalesbusiness.co.uk

Cliciwch ar y ddolen ganlynol:

<http://bit.ly/TBV-business-club-cy>

Cyfarfod eich Cymydog Busnes

**Dydd Mawrth 9fed Gorffennaf, 5pm ym
Mlaenau Gwent, Swyddfeydd Cyffredinol, Glyn Ebwy**


Mae hwn yn gyfle i fusnesau yn Nhorfaen a Blaenau Gwent rwydweithio a gwneud cysylltiadau gwerthfawr. Bydd tair rownd o rwydweithio wedi'i hwyluso, ac yna bydd bwffe gyda chyfle pellach i sgwrsio gyda busnesau eraill.

**Rhad ac am ddim,
hanfodol trefnu ymlaen llaw:
<http://bit.ly/meet-your-business-neighbour>**

£48 am aelod busnes newydd a /neu am y flwyddyn am fusnes sydd dan flwydd oed

£60 am fusnes sydd â llai na 10 o weithwyr

£80 am fusnes sydd â 10+ o weithwyr



Cofiwch y dyddiad Digwyddiad **Menywod mewn Busnes 2019**

Dydd Mercher 23ain Hydref 2019

4:30pm - 8:00pm

Parkway Hotel & Spa, Cwmbrañ Drive, Cwmbrañ NP44 3UW



Cyfarfod yr Aelod

Pan ddechreuais Awaken yn 2010, ei enw gwreiddiol oedd Awaken Life Coaching. Ar ôl deng mlynedd ar hugain yn y byd corfforaethol yn 2009 roeddwn yn dioddef 'burnout', ac roedd yn rhaid i mi gymryd blwyddyn i ffwrdd, a ddechreuodd f'adferiad, ac yna cychwynais y busnes.

Fy mwriad bob amser yw helpu eraill mewn unrhyw ffordd y gallaf.

Mae'r busnes nawr wedi tyfu a'r dyddiau hyn mae'n seiliedig fwy ar ymgynghori busnes, mentora a hyfforddi, a chyd hyn mewn golwg, mae enw'r cwmni wedi newid i Awaken Group Ltd.

Yn 2012 bu i mi wireddu un o freuddwydion fy mhleutyndod, pan ddeuthum yn awdur fy llyfr cyntaf i gael ei gyhoeddi 'Made it Thru the Rain' sy'n adrodd fy nhaith drwy'r cyfnod anodd a sut y bu i mi weithio i newid pethau. Mae'r llyfr ar gael ar Amazon a nawr, saith mlynedd yn ddiweddarach, rwyf yn y broses o ysgrifennu am gyfnod nesaf y daith.

Rwyf wedi fy lleoli yn ein swyddfa yng Nghwmbrân lle medrwyd gael hyd i mi yn gweithio ar y llwybrau amrywiol i ddarparu cymorth.

Yn 2015 datblygais y rhaglen Angel Corfforaethol, sydd â'r bwriad o helpu busnesau canolog i fawr gyda lles eu staff / timau. Trwy'r rhaglen hon, rwy'n ymweld â chyfundrefnau fel cynghorydd lles i'w cynorthwyo gyda'u strategaethau lles. Fy mwriad yw cysylltu busnesau bach gyda rhai mwy er mwyn iddynt fedru symud ymlaen gyda'i gilydd i ddatblygu rhaglenni

ac ati i helpu'r rhai sy'n gweithio iddyn nhw.

Dechreuodd Clwb Busnes Awaken yn 2017, ac mewn cyfarfod misol rwy'n cynnig mentora a hyfforddiant i fusnesau bach sy'n chwilio am gyfarwyddyd wrth iddyn nhw sefydlu a thyfu. Mae hwn yn grŵp fforddiadwy ac mae'r aelodau wedi dweud ei fod fel cael uwch dîm rheoli eich hun i'ch helpu gyda'r penderfyniadau busnes angenrheidiol hynny.

Ynghyd â'r uchod, rwy'n gweithio fel siaradwr a chyd help gan fy nhîm a threfnydd digwyddiadau, ein digwyddiad nesaf yw Sioe Fusnes De-ddwyrain Cymru ar 12fed Mehefin yng Nghwrs Rasio Cas-gwent.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â mi er mwyn i ni fedru cael sgwrs.

07502375714

bev@awakencoaching.co.uk

www.awakencoaching.co.uk



Beverley Jones

**Busnes De-ddwyrain Cymru
Arddangosfa Rhwydweithio
Brecwast yng Nghae Ras
Cas-gwent Ar Fehefin 12fed**



7:45am Brecwast rhwydweithio 10am Arddangosfa

Hoffem ddiolch i'n cyfranwyr:



SIGMA

Next Done Now.™

Aelodau newydd

Ask Alice

xalice.manshipx@
hotmail.com

Business Doctors

www.businessdoctors.
co.uk/newport

CKL Build Group

karen@cklbuildgroup.
co.uk

Dragons Rugby

tom.watkins@
dragonsrugby.wales

House of Colour- Monmouthshire and Torfaen

www.houseofcolour.co.uk/
sianfisher

Launchstorm

www.launchstorm.com

Mosswood Industrial Supplies

www.mosswoodtools.com

RDP Law

www.rdplaw.co.uk

Sian Fisher HR

www.sianfisherhr.co.uk

Stephens Wilmot

robert.stephens@
stephenswilmot.co.uk

Thomas Carroll Insurance Brokers

www.thomascarroll.co.uk